

# Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

## Digwyddiadau Y Llywydd (Mai i Awst 2017)

Pan gefais fy sefydlu yn y swydd ym mis Mai dywedais y buaswn yn ceisio codi proffil Y Cyngor drwy roi gwybodaeth am y digwyddiadau y bum yn gysylltiedig â nhw, yn fy rôl fel Llywydd i'r 4 Tudalen, Y Gwyllydd, Treasury a'r URC fesul chwarter a'u crynhoi i "Ddigwyddiadau". Dyma felly y cyntaf, a'r bwriad yw crynhoi mewn brawddeg neu ddwy yr hyn sydd wedi digwydd fel cronicle byr yn hytrach na manylion llawn.

### **Mai 16eg**

Oedfa Sefydlu'r Llywydd dan arweiniad Y Parch Peter Dewi Richards (Y Llywydd oedd yn ymddeol)

### **Mai 17eg**

Gyrru datganiad i'r wasg a'r cyfryngau gan gynnwys amlinelliad o'r Anerchiad

### **Mai 17eg**

Mynychu'r cyfarfod cyntaf yn cynrychioli CERhC. Cyfarfod o Grŵp Traws Pleidiol ar Ffydd yn y Cynulliad. Cadeirydd oedd Darren Millar, A.C. a themâu'r cyfarfod oedd Curo'r Bwci: Cymunedau ffydd yn tacllo dibyniaeth gamblo gyda Wynford Ellis Owen, Cyfarwyddwr yr Ystafell Fyw yn arwain. Cafwyd trafodaeth gynhwysfawr a nodwyd nifer o bwyntiau gweithredu ar gyfer Y Cynulliad a byddai Darren Miller yn symud materion yn eu blaen

### **Mai 21ain**

Cyfweliad gyda John Roberts ar Bwrw Golwg am y Llywyddiaeth a'r feirniadaeth a wnaed o'r wasg a'r cyfryngau.

### **Mai 21**

Cael trafodaeth gychwynnol gydag Ynyr Roberts i weld sut y gellir gwella dulliau cyfathrebu'r Cyngor.

### **Mai 24**

Gyrru neges i'r wasg yn apelio ar aelodau'r Eglwysi Rhyddion i arwyddo'r ddeiseb ac yn nodi ein cyfrifoldeb, oherwydd gwaith diflino yr eglwysi rhyddion dros y ddwy ganrif ddiwethaf yn sicrhau trefniant o'r fath.

### **Mai 24**

Paul Gutteridge, Swyddog Polisi Grŵp Eglwysi Rhyddion Prydain yn cysylltu i gynnig ei gymorth ar faterion cyfathrebu. Rhoi ef ac Ynyr mewn cyswllt a'i gilydd.

### **Mai 24**

Gyrru e byst at nifer sylweddol o unigolion ar draws Cymru yn apelio arnynt i arwyddo e ddeiseb a gychwynwyd gan ferch ifanc 13 oed o Gaerdydd yn apelio ar Lywodraeth Cymru i gadw at y trefniadau presennol parthed addoli ar y cyd yn yr ysgolion.

### **Mehafin 10**

Mynychu Cynhadledd Flynyddol y Congregational Federation a oedd eleni yn cael ei chynnal yn Abertawe. Rhyfeddu bod enwad gyda nifer cymharol fechan o eglwysi yn gallu rhwydd lenwi Neuadd y Brangwyn. Trueni na fyddai'r un brwdfrydedd yn cael ei ddangos gan yr eglwysi Cymraeg, Roedd y cyflwyniadau yn goeth a'r trafodaethau yn frwd ac o safon arbennig o uchel. Y penllanw oedd sefydlu Y Parch Martin Spain yn Lywydd am y flwyddyn sy i ddod – ef wrth gwrs yn gyn lywydd ein Cyngor ni.

### **Mehafin 20**

(i) Gyrru neges o gydymdeimlad at gymuned Mwslemaidd Caerdydd yn dilyn trychineb Finsbury Park.

(ii) Mynychu lansiad Arddangosfa yn y Senedd ***Cristnogion ar draws y Byd yng Nghymru a'u cyfraniad i'r gymuned.*** Roedd yn agoriad llygad gweld bod cymaint o grwpiau Cristnogol o wahanol wledydd y byd o'r tu allan i Ewrop yn bodoli yn Ne Cymru. Roedd yr arddangosfa yn hynod i ddangos a dehongli amrywiaeth eu haddoliad a'u gweithgarwch o fewn eu cymunedau.

### **Mehafin 23**

Cyfweliad gyda John Roberts ar Bwrw Golwg am y trychinebau yn erbyn Mwslemaid

### **Gorff 3-5**

Mynychu Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteriaid Cymru o dan wahoddiad fel Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion. Codwyd mater y ddwy e ddeiseb am wasanaethau yn yr ysgolion. Roedd yn braf gallu dweud bod bron i fil yn fwy wedi pleidleisio o blaid gwasanaethau nag

oedd wedi pleidleisio yn erbyn. Cefais gyfweliad ar gyfer Bwrw Golwg ble y datblygwyd y mater ymhellach.

### **Gorff 13**

Cyfarfod o Gyngor Rhyng Ffydd Cymru. Trawsdoriad da o gynrychiolwyr y gwahanol grefyddau a phawb yn cyfrannu yn agored. Cyflwyniad diddorol gan ddwy o gaplaniaid carchar y Parc – mae cael caplaniaid yn broblem. Roedd nifer sylweddol o amryfal adroddiadau ar gyfarfodydd yr oedd cynrychiolwyr y Cyngor wedi eu mynychu.

### **(Rhif 2 – Medi-Rhagfyr 2017)**

**Medi 6** Gyrru neges at Y Parchedicaif John Davies yn ei longyfarch ar ei ddyrchafu yn Archesgob yr Eglwys yng Nghymru ac yn mynegi y gobaith o gyd weithio hapus yn y dyfodol.

**Medi 24** Mynychu Diwrnod Coffa Cenedlaethol yr Heddlu. Yn cael ei gynnal ym mhedair gwlad y DU yn eu tro. Cynhaliwyd eleni yn Neuadd Dewi Sant a oedd yn llawn. Gwasanaeth hyfryd a theimladwy gyda'r Parch Tom Evans (Caplan Heddlu Dyfed Powys) yn cyflwyno pregeth amserol iawn. Roeddwn yn cymryd rhan gyfartal â'r Archesgobion!

**Medi 28** Annerch Cyfarfod Adran y Gogledd (Cyngor Eglwysi Rhyddion). Cyfarfod am 1.00 i drafod dyfodol yr Adran ac yna am 2.30 Cyfarfod i gyflwyno Medalau Gee i 33 o ffyddloniaid ysgolion Sul y Rhanbarth. Penderfynwyd trosglwyddo cyfrifoldeb Medalau Gee i'r Cyngor Ysgolion Sul a diddymu yr Adran.

**Hyd. 2** Mynychu, drwy wahoddiad Cyngor Hindw Cymru, Seremoni Dadorchuddio Cofeb o Mohandas Karamchand Gandhi gan Prif Weinidog Cymru ac Uchel Gomisinydd India ym Mae Caerdydd. Cafwyd anerchiad hefyd gan or wŷyr Ghandi – Mr Satish Dhupelia, a ddaeth o Dde Affica ar gyfer y seremoni.

**Hyd. 12** Methu mynychu, lansiad *Reconciling Leaders Network*, ym Mhalas Lambeth ond fe'n cynrychiolwyd gan Y Parch Richard Brunt a fynegodd fod y cyfarfod yn werthfawr iawn. Un o'r uchafbwyntiau oedd cyfweliad gyda Justin Welby. Siaradodd am ei brofiadau ei hun o gymodi. Gwelsom fideo fer hefyd ar safbwyntiau rhyngwladol yn y maes. Yr oedd yn gyfle da i gwrdd a phobl o eglwysi gwahanol hefyd.

**Hyd. 18** Mynychu digwyddiad yn Y Senedd i "Gofio Pantycelyn". Cyfraniadau gan Y Llywydd, Y Prif Weinidog a'r Athro Wyn James. Arddangoswyd gwaith celf o'r Per Ganiedydd gan Ivor Davies ac ef ei hun esboniodd y cefndir i'r gwaith. Bydd yn cael ei arddangos yn sefydlog yn y Llyfrgell Genedlaethol oedd wedi refnu y digwyddiad. Roedd paentiad Wynne Melville Jones yn cael ei arddangos hefyd.

**Hyd. 31** Gwasnaeth Coffau 500 mlwyddiant dechrau'r Diwygiad Protestanaidd yng Nghadeirlan Metropolitan Dewi Sant, Caerdydd. Cymryd rhan yn y Gwasanaeth yn gyfochrog â'r ddau Archesgob. Gwasanaeth tairieithog hynod iawn. Yn y pwn cyflwynwyd darlith afaelgar gan yr Athro D Densil Morgan ar "Catholigrwydd Protestaniaeth: etifeddiaeth y diwygiad yn yr unfed ganrif ar hugain"

**Tach. 13** Cyfarfod o Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru. Derbyn gwybodaeth fod Cangen y De yn ogystal â'r Gogledd ddim yn bodoli bellach. Cyngor Ysgolion Sul fydd yn gyfrifol am Fedalau Gee i'r dyfodol. Gellir cael copi o Gofnodion y cyfarfod gan Helen Jones (Ysgrifennydd) neu'r Llywydd drwy e bost:

[Rhys John.helen.jones@btinternet.com](mailto:helen.jones@btinternet.com) NEU [rheinallt@talktalk.net](mailto:rheinallt@talktalk.net)

**Rhag.2** Mynychu a chyflwyno gweddi yn Gymraeg yng Ngwasanaeth Gorseddu Y Parchedicaif Davies yn Archesgob yng Nghadeirlan Aberhonddu.

**Rhag. 6** Mynychu Cinio Rhyngffydd, yn Neuadd Dinas Caerdydd, wedi ei drefnu gan Gyngor Mwslemaidd Cymru. Dau siaradwr gwâdd Y Parchedicaif John Davies (Archesgob) a Dr Mustafa Ceric (Mufti Aruchaf Emeritus Bosnia). Tua 400 yn bresennol a phob cyflwyniad yn gwbl ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ac yn esiampl godidog i rai cyrff crefyddol a chyhoeddus eraill yn ein gwlad.

**Rhag.7** Mynychu cyfarfod blynyddol Cyngor Rhyng Ffydd Cymru. Tri chyflwyniad diddorol ac effeithiol ar: Gynhadledd Rhyng ffydd i'w chynnal mis Mai nesaf; Cynllun Argyfwng Dinas Caerdydd; Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth.

**Rhag.13** Mynychu cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd yn y Cynulliad. Y pwnc oedd *Caplaniaeth yn seiliedig ffydd: A yw'n werth chweil?* Cyfraniadau arbennig o oleuedig gan Gaplaniaid yn gweithio mewn ysbytai, carchardai ac adloniant – dangos yn glir gwerth gwaith fel hyn ac nad oedd bwys pa gred nac enwad oeddech.

**Rhag.19** Mynychu cyfarfod yn Y Plasty, ar wahoddiad Y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd, i drafod gydag Arweinwyr Ffydd eraill sut y gall Y Cyngor a'r Cymunedau Ffydd gyd weithio i gyfarfod ag anghenion dinas sydd mor amrywiol. Cyfarfod diddorol a buddiol gyda Chynghorwyr, Prif Weithredwr a 10 ohonom yn cynrychioli amrywiaeth o gredoau.

### **(Rhif 3 – Ionawr-Mawrth 2018)**

*Fel y gwelwch mae misoedd y gwanwyn wedi bod dipyn distawach na'r wyth mis cynt – ond eto profiadau amrywiol a diddorol dros ben ac mae'n fraint cael chwifio baner Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn yr amrywiol gyrchfannau.*

**Ion 9** Mynychu Dathliad Deucanmlwyddiant - Geni Bahá'u'lláh – sylfaenydd y ffydd Bahá'í yn Y Senedd. Cyflwyniadau diddorol ac addysgiadol. Hefyd cafodd bawb gopiau Cymraeg a Saesneg o "Y Geiriau Cudd" sy'n arweinlyfr yn cynnwys 82 o ddatganiadau gan Y Sylfaenydd sy'n arwain i fydoedd ysbrydol Duw.

**Maw 5** Mynychu cyfarfod rhyng enwadol yn swyddfeydd yr Eglwys yng Nghymru i glywed am a thrafod oblygiadau y "Rheolau Gwarchod Data Newydd" sy'n dod i rym ar y 25ain o Fai eleni. Mae yna oblygiadau pell gyrhaeddol i bob sefydliad bydded grefyddol neu seciwlar sy'n cysylltu ag aelodau ayyb.

**Maw 20** Mynychu cyfarfod Cyngor Rhyng Ffydd Cymru. – nifer o Adroddiadau yn deillio o gyfarfodydd a fynychwyd gan gynrychiolwyr ond treuliwyd amser sylweddol yn cytuno ar Gyfansoddiad i'r Cyngor.

Rheinallt A Thomas,  
Llywydd,  
Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru  
Gwelfor,  
65 Lacuna  
Windsor Esplanade,  
CAERDYDD, CF10 5BG  
e bost: [rheinallt@talktalk.net](mailto:rheinallt@talktalk.net)